**CABINET**

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 26 Mawrth 2019 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc; Brian Jones, Aelod Arweiniol Priffyrdd, Cynllunio a Theithio Cynaliadwy; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Datblygu Seilwaith Cymunedol; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai, Rheoleiddio a'r Amgylchedd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol, a Mark Young, Aelod Arweiniol Safonau Corfforaethol.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Mabon Ap Gwynfor, Alan James, Merfyn Parry, Paul Penlington, Peter Scott, Glenn Swingler, Rhys Thomas, Huw Williams ac Emrys Wynne

**HEFYD YN BRESENNOL**

Prif Weithredwr (JG); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Cymunedau (NS) ac Economi a’r Parth Cyhoeddus (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (GW) Swyddog Cyllid/ Adran 151 (RW); Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG); Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a’r Stoc Tai (DL) a’r Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019.

**Materion yn Codi –** Tudalen 6, Eitem 4 Cofnodion (Materion yn Codi) – Cabinet 30 Hydref 2018 (Darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr) – Adroddodd y Cynghorydd Peter Scott ar ei gyfarfod gyda’r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau i drafod yr adroddiad ymgynghori cyn cynllunio. Roed yn teimlo nad oedd yr adroddiad wedi bod yn agored a thryloyw ac roedd yn bryderus fod sylwadau a gwrthwynebiadau pwysig gyda chyfiawnhad wedi cael eu diystyru gyda chamau lliniaru aneffeithiol ac amhriodol wedi’u cynnig. Cadarnhaodd y Cynghorydd Scott y byddai’n ymhelaethu

mwy ar ei bryderon o dan yr eitem ar y rhaglen ynghylch Darparu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr.

***PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2019 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.***

**5 DARPARU SAFLEOEDD SIPSIWN A THEITHWYR**

Cyflwynodd y Cynghorydd Tony Thomas yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet yn dilyn yr ymarfer ymgynghori cyn cynllunio a gynhaliwyd mewn perthynas â darparu safleoedd preswyl a thramwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac amlinellu'r opsiynau ar gyfer bwrw ymlaen â'r prosiect ac argymhellion mewn perthynas â cham nesaf y prosiect. Cymerodd y cyfle hefyd i ddiolch i'r swyddogion am eu gwaith caled yn hynny o beth.

Darparwyd rhywfaint o wybodaeth gefndir yn yr adroddiad, gan gynnwys gofyniad statudol y Cyngor i gynnal asesiad o anghenion llety preswyl a thramwy ar gyfer sipsiwn a theithwyr a gwneud darpariaeth ar gyfer safleoedd pan nodwyd angen. Roedd yr asesiad wedi nodi'r angen am un safle preswyl ac un safle tramwy ac yn dilyn proses gynhwysfawr o ddewis safleoedd, roedd y Cabinet wedi cymeradwyo cynnal ymgynghoriad cyn-gynllunio ar y cynnig i leoli'r ddau safle ar Greengates Farm East, Llanelwy. Darparwyd manylion yr ymgynghoriad hwnnw, gan gynnwys dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd, yn yr adroddiad ynghyd ag argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar ôl ystyried yr ymarfer ymgynghori cyn cynllunio a dadansoddiad o ymatebion.

Argymhellodd yr adroddiad fod y Cabinet yn cytuno i beidio â symud ymlaen â'r safle tramwy yn Greengates Farm East a bod y lleoliad yn cael ei benderfynu drwy'r broses ffurfiol o ddyrannu safleoedd fel rhan o fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd. Argymhellwyd hefyd y dylai'r Cabinet ystyried a ddylid datblygu safle preswyl yn Greengates Farm East trwy gais cynllunio ffurfiol neu drwy broses y CDLl. Mewn unrhyw achos, argymhellwyd na ddylid lleoli'r safleoedd tramwy a phreswyl yn agos at ei gilydd.

Trwy gyflwyniad power point, gwnaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y pwyntiau canlynol –

- ail-bwysleisiwyd dyletswyddau statudol a deddfwriaeth berthnasol y Cyngor yn hynny o beth
- darparwyd trosolwg o'r cynigion ar wahân ar gyfer safleoedd preswyl a thramwy
- rhoddwyd trosolwg o'r broses ymgynghori cyn cynllunio
- rhoddwyd crynodeb o weithgarwch lleol o amgylch yr ymgynghoriad
- amlygwyd y pryderon Cydraddoldeb a godwyd fel rhan o'r ymgynghoriad
- darparwyd trosolwg a dadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd a'r materion a godwyd.

Wrth gloi dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol mai barn y swyddogion oedd y gellid lliniaru'r materion cynllunio perthnasol yn foddhaol a bod ymchwil yn awgrymu nad oedd yr effeithiau canfyddedig yn debygol o ddigwydd.

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod cyfrifoldebau statudol y Cyngor yn glir o ran darparu llety i Sipsiwn a Theithwyr a rhaid i'r Cabinet fod yn fodlon mai'r lleoliad arfaethedig oedd yr un cywir ar gyfer y safleoedd hynny. Ychwanegodd na fyddai dadl ar sefyllfa teuluoedd yr effeithiwyd arnynt gan y datblygiadau posibl.

Rhoddodd y Cynghorydd Huw Williams, Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Cymunedau, drosolwg o'r ddadl graffu ar yr ymarfer ymgynghori cyn cynllunio ac adborth yn ystod y cyfarfod ar 14 Mawrth 2019 ac ymhelaethodd ar y rhesymeg y tu ôl i'w hargymhellion i'r Cabinet *“(i) nad yw’r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a thramwy yn cael eu datblygu yn agos at ei gilydd, ble bynnag y meant yn cael eu lleoli, a (ii) bod lleoliad y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr preswyl a thramwy yn cael eu penderfynu drwy broses barhaus y Cynllun Datblygu Lleol”*. Fel pwynt o eglurhad cadarnhaodd y Cynghorydd Brian Jones y byddai'r CDLl newydd yn cael ei fabwysiadu yn 2021 ar gyfer y cyfnod hyd at 2033. Cadarnhaodd yr Arweinydd y byddai'r Cabinet yn ystyried safbwynt y pwyllgor craffu yn ofalus a’i fod yn gwerthfawrogi eu mewnbwn i'r broses gwneud penderfyniadau.

Roedd y prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol –

- Adroddodd y Cynghorydd Tony Thomas ar y broses ymgynghori gynhwysfawr ac ymhelaethodd ar bryderon y gymuned fusnes, gan nodi tystiolaeth o gost yn hynny o beth, hyd yn oed yn ystod y cam cynnar hwn o'r broses. Teimlai fod y dull a ddefnyddiwyd i ymgynghori ar y ddau safle arfaethedig ar yr un pryd wedi creu'r argraff y byddai'r ddau safle yn creu problemau tebyg. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a sylwadau’r pwyllgor craffu, a chyda datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch y mater i gyrraedd adeg y Pasg, roedd yn cefnogi argymhelliad y pwyllgor craffu i benderfynu ar y ddau safle drwy broses y CDLl, yn unol â'r dull a gymerwyd gan awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, i alluogi trafodaeth lawn gyda'r holl wybodaeth sydd ar gael. Teimlai hefyd y byddai bwrw ymlaen â'r cynigion yn rhoi'r argraff nad oedd y Cyngor wedi gwrando ar farn y cyhoedd na'r gymuned fusnes.
- Cyfeiriodd yr Arweinydd at y pryderon a godwyd gan y gymuned fusnes a gofynnodd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Economi a Parth y Cyhoedd am ei safbwynt o. Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol o'r farn bod effaith bosibl y safleoedd tramwy a phreswyl ar y gymuned fusnes leol yn wahanol - byddai natur y safle tramwy yn ddeiliadaeth tymor byr gan bobl sy'n annhebygol o fod yn gyfarwydd â'r ardal nac ag unrhyw gysylltiad â'r gymuned; byddai'r safle preswyl yn darparu llety ar gyfer teulu estynedig sy'n byw yn Sir Ddinbych ac sydd eisoes wedi buddsoddi yn y gymuned. O ganlyniad, roedd o'r farn bod yr ofnau a'r pryderon a godwyd wedi'u cysylltu'n bennaf â'r safle tramwy o ystyried y risg uwch o faterion negyddol ac roedd yn anodd deall beth fyddai'r gwrthwynebiadau busnes i'r safle preswyl. Roedd profiad wedi dangos nad oedd pryderon ac ofnau a godwyd yn y cyfnod cyn cynllunio yn aml yn digwydd mewn gwirionedd. Petai cais cynllunio yn cael ei wneud, byddai asesiad o effaith ar fusnes yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses honno. Wrth ymateb i bwynt cynharach dywedodd fod ymholiadau diweddar wedi dod i law am fuddsoddiad newydd posibl yn y Parc Busnes.
- Darparodd y Cynghorydd Brian Jones rywfaint o wybodaeth ystadegol gan Lywodraeth Cymru yn dweud bod safleoedd heb awdurdod hyd at fis Gorffennaf 2018 wedi cynyddu 32% ac roedd safleoedd awdurdodedig wedi cynyddu 6%

gan amlygu fod y galw am safleoedd efallai wedi cynyddu ers i'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr gael ei gynnal. Dywedodd hefyd, ar ôl siarad â'i gymheiriaid mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, bod y ffordd gyffredinol ymlaen yn cynnwys dyrannu safleoedd fel rhan o broses y CDLl a chydweithio ag awdurdodau cyfagos ac roedd hefyd yn argymell y dull hwnnw.

- Cydnabu'r Cynghorydd Richard Mainon ddyletswyddau statudol y Cyngor a'r gwaith caled a wnaed hyd yn hyn er mwyn bodloni'r gofynion hynny. Ar ôl ystyried y broses bresennol a chanlyniad yr ymarfer ymgynghori cyn cynllunio, teimlai y dylid trin y ddau safle yn gyfartal a chefnogodd argymhelliad y pwyllgor craffu y dylid pennu'r ddau safle drwy broses y CDLl. Roedd o'r farn y byddai'r opsiwn hwn yn darparu proses fwy cadarn, agored a thryloyw ac yn galluogi ymgynghori effeithiol ac ystyrlon er mwyn gwneud penderfyniad cwbl wybodus gyda chyfranogiad pob cynghorydd sir yn y broses gwneud penderfyniadau yn hytrach na nifer fach ar y weithrediaeth. O ran yr Asesiadau Effaith ar Les teimlai y dylai fod mwy o wahaniaethu rhwng y ddau safle datblygu arfaethedig gwahanol iawn.
- Roedd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yn teimlo, waeth beth fo'r broses, o ystyried natur y datblygiad arfaethedig, y byddai'n denu gwrthwynebiadau ble bynnag y byddai. Roedd yn falch o nodi faint o ymgysylltu â'r cyhoedd a fu yn y broses ymgynghori cyn cynllunio a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau. Roedd o’r farn bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ymwneud â'r safle tramwy ac wrth gydnabod y pryderon hynny teimlai na fyddai'n lleoliad priodol ar gyfer safle tramwy o gofio'r achos a wnaed o ran effaith, yn enwedig ar y gymuned fusnes. Fodd bynnag, teimlai nad oedd achos wedi'i wneud mewn perthynas â'r safle preswyl heb unrhyw dystiolaeth i gefnogi effaith negyddol ar yr economi fusnes. Roedd hefyd o'r farn y dylid ystyried yr angen cynyddol am ddarpariaeth dros dro fel y cyfeiriwyd ato gan y Cynghorydd Brian Jones wrth fynd â'r prosiect yn ei flaen.
- Pwysleisiodd y Cynghorydd Bobby Feeley y rhesymeg y tu ôl i'r adroddiad i'r Cabinet o gofio dyletswydd statudol y Cyngor i asesu anghenion llety sipsiwn a theithwyr a gwneud darpariaeth i ddiwallu'r anghenion hynny a chydnabu'r broses gynhwysfawr a ddilynir yn hynny o beth. Roedd hefyd o'r farn bod y broses wedi bod yn drwyadl (er ei bod yn teimlo y dylai'r canfyddiad na ddylid datblygu'r ddau safle yn agos at ei gilydd fod wedi cael ei wneud yn gynharach) a chanmolodd waith y Pwyllgor Craffu Cymunedau o ran galw’r penderfyniad i mewn yn y lle cyntaf a dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Eglurodd y swyddogion nifer o bwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth ac ymatebwyd hefyd i gwestiynau fel a ganlyn –

- nid oedd swyddogion yn ymwybodol o ddatganiad arfaethedig gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ond roedd yn annhebygol o gael effaith ar y dyletswyddau cyfreithiol cyfredol oni bai bod newid yn y gyfraith.
- amlygwyd darpariaethau deddfwriaethol sy'n llywodraethu cyfarfodydd ac achosion sy’n ymwneud â datgelu gwybodaeth, gan gynnwys y rhesymeg y tu ôl i gynnal rhai cyfarfodydd mewn sesiynau caeedig (roedd gan bob cynghorydd sir fynediad at bapurau a ystyriwyd mewn sesiwn gaeedig); cyhoeddwyd rhaglenni yn darparu manylion yr eitemau ac roedd gwybodaeth wedi'i golygu'n

addas wedi'i chyhoeddi i sicrhau bod y cyhoedd yn gweld y meini prawf a'r broses a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu safleoedd.

- pan dderbyniodd y Cabinet yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr ym mis Ionawr 2017 argymhelliad y Cabinet bryd hynny oedd blaenoriaethu'r safle preswyl dros y safle tramwy.
- ar ôl i'r asesiad o anghenion llety gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, roedd dyletswydd ar y Cyngor i ddarparu'r llety hwnnw; er nad oedd unrhyw amserlen wedi'i phennu, bob dydd nad oedd llety wedi'i ddarparu, roedd y Cyngor o bosibl yn torri ei ddyletswydd statudol - po hiraf yr oedd yn ei gymryd i gyflawni'r ddyletswydd honno, y mwyaf tebygol oedd hi y byddai her gyfreithiol yn cael ei gwneud pe bai rhywun yn ddig oherwydd bod y Cyngor yn torri'r ddyletswydd statudol honno.
- pe nodwyd angen nas diwallwyd yn dilyn asesiad o anghenion llety, yna byddai angen i'r Cyngor ddyrannu safleoedd penodol yn y CDLl oni bai bod y safleoedd hynny eisoes wedi cael eu darparu drwy'r broses gynllunio - ar adeg cymeradwyo'r CDLl presennol nid oedd asesiad o angen cymeradwy ac felly ni fu unrhyw ofyniad i ddyrannu safleoedd bryd hynny
- esboniwyd y broses ar gyfer y CDLl newydd (a oedd yn mynd rhagddi ar hyn o bryd) gyda'r bwriad o gyflwyno strategaeth lefel uchel i'r Cyngor ym mis Mai i'w chymeradwyo, wedi hynny byddai gwahanol safleoedd yn cael eu nodi a’u dyrannu ynghyd â phroses ymgynghori gyda’r bwriad o fabwysiadu’r CDLl newydd yn 2021; darparwyd manylion yr amserlenni o ran datblygu'r datblygiad drwy’r ddau opsiwn, proses y CDLl a'r broses gynllunio ffurfiol.

Ailadroddodd y Cynghorydd Peter Scott (Aelod Lleol Gorllewin Llanelwy) ei bryderon ynghylch y diffyg ymgynghori a'r fethodoleg a ddefnyddiwyd yn y broses o ddewis safleoedd. Adroddodd am bryderon difrifol y gymuned ynghylch lleoliad arfaethedig y safleoedd a fyddai'n debygol o ddifrodi’r ardal, gan gynnwys risg i gydlyniant cymunedol, colli amwynder, effaith ar fusnesau a'r economi. Roedd y gymuned fusnes wedi lleisio pryderon difrifol a dilys gan ddyfynnu difrod anadferadwy a pharhaol a fyddai'n dylanwadu ar ddatblygiad yn y dyfodol ac ychydig iawn o ymgysylltu a gafwyd â busnesau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Tynnwyd sylw hefyd at yr effaith ddinistriol ar un teulu penodol sy'n byw yn y cyffiniau. Roedd hawliau ac anghenion teithwyr yn cael eu cymryd o ddifrif - fodd bynnag roedd y dewis safle yn wael ac ni ddylai diwallu'r anghenion hynny arwain at leoli datblygiadau mewn lleoliad amhriodol. Wrth ymateb i sylwadau swyddogion, dywedodd fod llawer o'u hymchwil wedi bod yn ddibynnol ar hen wybodaeth; Sefydlwyd ‘Business and Residents Against Indiscriminate Development in St. Asaph – BRAIDS’ i rannu gwybodaeth a threfnwyd sesiwn galw heibio i roi cymorth i ymatebwyr, ac atebwyd gwrthwynebiadau gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol gan Gyngor Dinas Llanelwy. Roedd y Cynghorydd Scott o'r farn bod y cyfoeth o wrthwynebiadau wedi cael eu gwawdio a'u diystyru fel rhwystr i'w oresgyn. Gofynnodd am roi ystyriaeth briodol i farn y trigolion ac anogodd y Cabinet i beidio â bwrw ymlaen â'r datblygiadau ar Greengates Farm East ond yn hytrach eu cyfeirio trwy broses y CDLl i sicrhau bod safleoedd addas yn cael eu nodi ar gyfer teithwyr a thrigolion. Mewn ymateb i gwestiynau gan y Cabinet, roedd y Cynghorydd Scott o'r farn pe byddai ymgynghoriadau ar wahân ar bob cynnig wedi eu gwneud, y byddai'r effaith ganfyddedig ar y gymuned yr un fath. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiadau, dim ond i'r lleoliad a gynigiwyd yn Llanelwy.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at gyfeiriadau ynghylch y broses o ddewis safleoedd a ystyriwyd yn y pwyllgor craffu ac a brofwyd yn flaenorol gyda swyddogion. Roedd y Cabinet wedi cytuno eu bod yn gyfforddus â'r broses honno, ar wahân i'r Cynghorydd Richard Mainon. Er mwyn rhoi sicrwydd pellach, ail-bwysleisiodd y Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a’r Stoc Tai y broses gynhwysfawr a hir o ddewis ac asesu safleoedd a'r rhesymau pam y dewiswyd Greengates Farm East yn hytrach na safleoedd posibl eraill a nodwyd ac a ddiystyrwyd fel rhan o'r broses honno. Dywedodd y Cynghorydd Scott fod safle addas arall wedi'i nodi ond nad oedd y Cyngor am golli gwerth y safle hwnnw. Cyfeiriodd swyddogion at ddyletswydd y Cyngor i ddangos gwerth gorau a bod yr angen i ystyried cost cyfle o ddarparu safleoedd wedi cael ei ystyried yn ystod y broses asesu.

Ar ôl ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad cyn cynllunio a'r sylwadau a dderbyniwyd a'r opsiynau ar gyfer symud y prosiect yn ei flaen, ystyriodd y Cabinet yr argymhellion fel y nodwyd yn yr adroddiad a chytunwyd y dylid pleidleisio arnynt ar wahân er eglurder. Yn dilyn pleidleisiau ar argymhellion 3.1 - 3.3 yn yr adroddiad, cafwyd seibiant byr. Ar ôl ailymgynnull cafwyd trafodaeth bellach ar argymhelliad 3.4 yn ymwneud â'r opsiynau ar gyfer y safle preswyl. Dywedodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts, pe na bai'r datblygiad ar gyfer safle preswyl yn Greengates Farm East yn cael ei gymeradwyo, roedd potensial o hyd i'r safle tramwy gael ei leoli yno fel rhan o broses y CDLl. O ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad cyn cynllunio, roedd y Cynghorydd Hilditch-Roberts o'r farn bod y lleoliad yn anaddas ar gyfer safle tramwy ac, o ystyried bod penderfynu ar ddyraniadau safleoedd yn y CDLl yn benderfyniad i'r Cyngor llawn, cynigiodd nad oedd y Cabinet yn argymell y dyraniad safle tramwy yn East Farm Farm East fel rhan o broses y CDLl. Wedyn ystyriodd a phleidleisiodd y Cabinet ar yr argymhellion sy'n weddill a'r cynnig newydd.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn –*

*(a)* *nodi'r dadansoddiad o'r ymarfer ymgynghori cyn cynllunio a gynhaliwyd mewn perthynas â safleoedd preswyl a thramwy arfaethedig ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ar safle Greengates Farm (East) yn Llanelwy fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad;*

*(b)* *nodi argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 14 Mawrth 2019 fel y nodir ym mharagraff 8.4 o'r adroddiad;*

*(c)* *mewn ymateb i bryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyn-gynllunio ynghylch agosrwydd y safleoedd at ei gilydd, diffyg ymgynghori ystyrlon â'r Gymuned Deithiol ac i gydnabod yr angen blaenoriaethol ar gyfer y teulu preswyl, bod y Cabinet yn cytuno i beidio â symud ymlaen â safle tramwy Sipsiwn a Theithwyr yn Greengates Farm (East) trwy gais cynllunio ffurfiol, a bod lleoliad y safle datblygu arfaethedig hwn yn cael ei benderfynu drwy'r broses ffurfiol o ddyrannu safleoedd fel rhan o fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol newydd;*

*(d)* *yn dilyn ystyried yr opsiynau ar gyfer y safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr, cytuno i ddatblygu datblygiad y safle preswyl Sipsiwn a Theithwyr yn Greengates Farm (East) drwy'r broses cais cynllunio ffurfiol yn y lleoliad a*

*nodir yn Atodiad 3 i'r adroddiad ac y dylai'r cais cynllunio ffurfiol gynnwys fel gwybodaeth ategol gefndir yr holl wybodaeth statudol ynghyd ag asesiadau effaith ar fusnes a phreswyl a mesurau lliniaru addas lle tybir bod angen;*

*(e)* *pa bynnag opsiynau a ddewisir ar gyfer nodi lleoliad y safleoedd preswyl a thramwy ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, nad yw'r safleoedd yn cael eu datblygu yn agos at ei gilydd;*

*(f)* *na fydd y Cabinet yn argymell dyrannu safle tramwy yn Greengates Farm East fel rhan o broses y Cynllun Datblygu Lleol, a*

*(g)* *Bod y Cabinet yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall a chymryd i ystyriaeth yr Asesiadau Effaith ar Les (Atodiad 5 i'r adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.*

Pleidleisiodd y Cynghorydd Richard Mainon yn erbyn penderfyniadau (a) ac (c) uchod.

Mewn perthynas â phenderfyniad (d) o ran y safle preswyl, ystyriodd y Cabinet ddau opsiwn y manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Opsiwn A - symud y datblygiad yn ei flaen trwy'r broses ffurfiol o wneud cais cynllunio yn y lleoliad a nodwyd, ac Opsiwn B - i beidio â symud ymlaen ag Opsiwn A a phenderfynu ar leoliad y safle datblygu drwy broses y CDLl. Pleidleisiodd yr Aelodau fel a ganlyn: Opsiwn A - Y Cynghorwyr Hugh Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts a Mark Young; Opsiwn B - Y Cynghorwyr Brian Jones, Richard Mainon, Tony Thomas a Julian Thompson-Hill. O ystyried y bleidlais rwym defnyddiodd yr Arweinydd / Cadeirydd y Cynghorydd Hugh Evans ei bleidlais fwrw ar gyfer Opsiwn A i gario’r penderfyniad (d) uchod.

**6 ADRODDIAD CYLLID**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn –

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2018/19 oedd £194.418m (£189.252m yn 2017/18)
- rhagwelwyd gorwariant o £0.487m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol
- tynnu sylw at risgiau ac amrywiannau cyfredol sy'n ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, a
- darparu diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd nodi bod y defnydd arfaethedig o gyllidebau a gaiff eu cario drosodd gan wasanaethau a chymeradwyo'r cynlluniau cyfalaf tai yn Aquarium Street a John Street, Y Rhyl fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a nodwyd yn yr adroddiad.

Codwyd y materion canlynol yn ystod y drafodaeth –

- rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd i'r Cabinet gan ddweud bod y duedd ar i lawr o ran y pwysau cyllidebol yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf wedi digwydd yn bennaf oherwydd y camau cadarnhaol a gymerwyd gan uwch swyddogion wrth reoli gwariant i sicrhau sefyllfa fwy cadarn yn y dyfodol.
- Dywedodd y Cynghorydd Brian Jones bod Dawnus Construction, a oedd wedi is-gontractio’r contract cynnal a chadw pont Pont y Ddraig allan, wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr yn ddiweddar. Darparwyd sicrwydd bod mesurau dros dro wedi eu gweithredu i sicrhau bod y bont yn gweithredu'n effeithiol a'i bod yn cael ei chynnal a'i chadw'n iawn cyn dyfarnu contract cynnal a chadw ffurfiol.
- Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd hefyd fod Dawnus Construction yn un o'r cynigwyr llwyddiannus ar Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru ac adroddodd ar drafodaethau gyda'r gweinyddwyr ynghylch eu sefyllfa a'u cyfreithlondeb ynghylch y broses honno a gwaharddiad posibl Dawnus o'r fframwaith – pe byddai’n cael ei wahardd, mae'n debyg y byddai Dawnus yn cael ei ddisodli gan y cyflenwr â’r sgôr uchaf nesaf.
- roedd cyfeiriad at orwariant yn ymwneud ag SC2 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad ac eglurodd y Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai nad oedd gorwariant ar SC2 ac eglurodd fod y gwasanaeth, yn hytrach na gofyn am arian corfforaethol, wedi dewis cynnwys y costau sefydlu cyfan. Roedd y ddarpariaeth ar gyfer costau sefydlu wedi ei chynnwys yn yr achos busnes gwreiddiol ac roedd y gwasanaeth cyfan wedi cyflawni gormod i gynnwys y costau sefydlu hynny.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*

*(a) nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni;*

*(b) nodi'r defnydd arfaethedig o gyllidebau a gaiff eu cario drosodd gan wasanaethau, a*

*(c) chymeradwyo'r cynlluniau cyfalaf tai yn Aquarium Street a John Street, Y Rhyl fel yr argymhellwyd gan y Grŵp Buddsoddi Strategol ac a nodwyd yn yr adroddiad.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i’w hystyried.

***PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.***

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40 pm.